Diogelwch/Sicrwydd Gwybodaeth

RHAGYMADRODD

Gwybodaeth yw'n busnes ni a dyma un o'n prif asedau. Mae Tŷ'r Cwmnïau wedi ymrwymo i gyrraedd y lefel briodol o Ddiogelwch Gwybodaeth i ddiogelu gwybodaeth gyfyngedig (gan gynnwys gwybodaeth bersonol) nad yw wedi'i bwriadu ar gyfer y cofnod cyhoeddus.

Mae Diogelwch Gwybodaeth yn creu manteision ar gyfer busnes. Mae ffynonellau gwybodaeth dibynadwy a sicr yn caniatáu i Dŷ'r Cwmnïau gyflwyno'i wasanaethau i'w gwsmeriaid yn effeithlon ac yn effeithiol. Mae Diogelwch Gwybodaeth yn gysylltiedig hefyd ag amcanion strategol y sefydliad; yn benodol, gweithio'n gwbl electronig, gwybodaeth sydd ar gael yn hwylus ac yn ddi-rwystr a chofrestrfa gyfoes effeithlon.

DATGANIAD O FWRIAD

- Cynnal ac adolygu System Rheoli Diogelwch Gwybodaeth (ISMS) a ategir â pholisïau a gweithdrefnau Diogelwch Gwybodaeth
- Cynnal Fforwm Diogelwch Gwybodaeth (ISF), o dan gadeiryddiaeth aelod o'r Prif Fwrdd, i fonitro a rheoli materion Diogelwch Gwybodaeth
- Cynnal ac adolygu polisïau a gweithdrefnau sy'n diogelu asedau gwybodaeth y sefydliad rhag pob bygythiad, mewnol neu allanol, bwriadol neu ddamweiniol, gan sicrhau:

    • y caiff gwybodaeth ei diogelu rhag cael ei gweld heb awdurdod;

    • y caiff cyfrinachedd gwybodaeth ei sicrhau;

    • y caiff cyflawnder gwybodaeth ei gadw;

    • y bydd gwybodaeth a systemau gwybodaeth yn parhau i fod ar gael;

    • y caiff gofynion rheoliadau a deddfwriaeth eu bodloni;

    • y caiff cynlluniau Parhad Busnes eu cynhyrchu, eu cynnal a'u profi;

    • caiff yr holl staff hyfforddiant mewn diogelu gwybodaeth;

    • y rhoddir gwybod am bob achos gwirioneddol a phob achos a amheuir o dorri diogelwch gwybodaeth i'r Rheolwr Diogelwch Gwybodaeth, a fydd yn ymchwilio i bob un

- Cynnal ac adolygu gweithdrefnau i ategu'r polisi hwn. Mae'r rhain yn cynnwys rheoli mynediad, atal feirysau, rheoli risgiau a darpariaethau ar gyfer parhad busnes.

CYFRIFOLDEBAU

- Y Rheolwr Diogelwch Gwybodaeth sy'n uniongyrchol gyfrifol am gynnal y Polisi a rhoi cyngor a chanllawiau ar roi'r Polisi ar waith

- Mae’r Fforwm Diogelwch Gwybodaeth yn fan canolog ar gyfer trafod materion diogelwch gwybodaeth, er mwyn sicrhau bod yna gyfeiriad clir a chymorth rheoli gweladwy ar gyfer mentrau a materion Diogelwch Gwybodaeth.
- Mae pob aelod o’r staff yn gyfrifol am gadw at y Polisïau perthnasol.

Llofnod:  Dyddiad: